Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Dolau

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Dolau yn gymuned ddysgu gyfeillgar, fywiog a chynhwysol lle mae gan bawb ddisgwyliadau a dyheadau uchel ohonyn nhw eu hunain ac eraill. Mae disgyblion yn falch o fod yn rhan o'r ysgol ac yn ymdrechu'n frwdfrydig i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Maent yn parchu ei gilydd ac yn cefnogi'i gilydd ag aeddfedrwydd cymeradwy wrth iddynt weithio a chwarae. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau iaith, rhifedd a digidol o'u mannau cychwyn. O ganlyniad i ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo dwyieithrwydd, mae disgyblion o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd da yn y ddwy iaith ac yn manteisio ar bob maes dysgu yn hyderus.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu difyr a chyffrous sy'n annog disgyblion i archwilio, bod yn chwilfrydig a datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at beth maent yn ei ddysgu, a sut, wrth i'w syniadau a'u hoff bethau gael eu hymgorffori mewn gweithgareddau a themâu. Mae athrawon yn modelu ymddygiadau dysgu da yn dda ac yn darparu adborth amserol sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth ac yn ysgogi meddwl dyfnach disgyblion. Mae gweithgareddau'n herio disgyblion yn bwrpasol ac mae'r ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored yn lleoedd prysur a chynhyrchiol. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau, nid yw cyflymdra'r addysgu yn ddigon cyflym ac nid yw holi yn arwain y camau nesaf mewn dysgu mor effeithiol ag y gallai.

Mae'r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig. Mae'n eiriolwr dygn ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff, ac mae ei weledigaeth wedi'i seilio ar ddyheu'n barhaus am y safonau, y cynnydd a'r lles gorau oll i bawb. Caiff y pennaeth ei gynorthwyo'n hynod effeithiol gan dîm o staff sydd wedi'u cymell ac yn ymroddgar. Maent yn elwa'n fawr ar y cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygu arweinwyr yn yr ysgol sy'n effeithiol ar gyfer profiadau dysgu a chynnydd disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn fedrus ac yn frwdfrydig ac mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'u dyletswyddau a'u rhwymedigaethau. Maent yn rhoi cymorth pwrpasol i arweinwyr a staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'i hadnoddau.

# Argymhellion

**A1 Rhannu arfer addysgu orau yn benodol i wella cyflymdra gwersi a medrau holi athrawon**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â llwybrau dysgu proffesiynol rhagorol sy'n datblygu arweinyddiaeth yn strategol ar bob lefel, i'w lledaenu ar wefan Estyn.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Dolau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 520 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 393 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 60 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 6.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 1.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 13.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 07/01/1997 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/07/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/10/2023 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.